Docusign Envelope ID: 47FCD4D6-1644-4DF7-8755-B4B8C878B087

# CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

# CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

## ORDER UNDER SECTION 21 OF THE TOWN POLICE CLAUSES ACT 1847

## FOR THE PREVENTION OF OBSTRUCTION

On Friday 21st November 2025, for the Llanelli Christmas Carnival, the following streets will be thronged and liable for obstruction.

1. Between the hours of 12:00 and 22:00:
   a) Cowell Street, Llanelli, from its junction with John Street

2. Between the hours of 17:45 and 20:00:
   a) Cowell Street (from its junction with Murray Street), Stepney Street (from its junction with Cowell Street), John Street, Church Street, Hall Street, Gelli Onn, West End, Waunlanyrafon/Old Castle Road, Llanelli (in their entirety)

3. Between the hours of 18:00 and 18:20:
   a) Pembrey Road (in its entirety) and Sandy Road (to is junction with Beach Road), Beach Road, Llanelli (in its entirety)

**The alternative route** for north-west bound traffic will be to proceed in a south-easterly direction along the B4304 to the Seaside roundabout. At the roundabout, take the third exit and continue along the B4304 Cambrian Street in a south-easterly direction, to the Lliedl roundabout. At the roundabout, take the second exit and continue along the B4304 in a south-easterly direction to the Copperhouse roundabout. At the roundabout, take the second exit and continue along the B4304 to the Delta Lakes roundabout. At the roundabout, take the second exit and continue along the B4304 to the Machynys roundabout. At the roundabout, take the first exit and continue along the B4304 The Avenue in a north-westerly direction for approximately 1.3 kilometres, to the mini roundabout. At the mini roundabout, take the second exit and continue along the B4304 Station Road in a north-westerly direction to its junction with Murray Street. At the junction, turn right and continue in a north-easterly direction along Murray Street to the roundabout. At the roundabout, take the first exit and continue along Murray Street to the roundabout. At the roundabout, take the first exit and continue along Upper Robinson Street in a north-easterly direction to the roundabout. At the roundabout, take the first exit and continue along Stepney Place in a northerly direction to the roundabout. At the roundabout, take the first exit and continue along Stepney Place in a north-easterly direction to the Swansea Castle roundabout. At the roundabout, take the first exit and continue along Water Street in a general north-westerly direction to return to a point east of the closure.

The CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL pursuant to powers conferred by section 21 of the town police clauses act 1847 DOES HEREBY ORDER AND DIRECT that for the purpose of

Docusign Envelope ID: 47FCD4D6-1644-4DF7-8755-B4B8C878B087

preventing obstruction on the above mentioned roads, shall be closed to all vehicular traffic including pedal cycles between the hours indicated above on Friday 21st November 2025 subject to emergency service vehicles being allowed access to the street without delay in the event of an emergency.

This order will not prevent any person from causing any vehicle to proceed or to wait on or in the said lengths of road referred to therein if the vehicle is being used for fire brigade purposes or an ambulance or a vehicle in the service of a police force in any such case being used in pursuance of statutory powers or duties.

Any person directed or permitted by a police constable in uniform to drive, ride or propel a vehicle or to cause or permit a vehicle to wait on or in the said lengths of road described in this Order during the said hours on the said days shall obey the direction of the said police constable, and of any other police constable in uniform, PCSO or other authorised person.

**THE COMMON SEAL** of **THE** )

**CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL** )

was hereunto affixed this )

10th day of November 2025 in the )

presence of:- )




Steven P Murphy

19447

**Steven P Murphy**

**Head of Law, Governance and Civil Services**

Docusign Envelope ID: 47FCD4D6-1644-4DF7-8755-B4B8C878B087

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN**

**GORCHYMYN O DAN ADRAN 21 O DDEDDF CYFRIFOLDEBAU HEDDLUOEDD TREFOL 1847**

**AR GYFER ATAL RHWYSTR**

Ddydd Gwener 21 Tachwedd 2025, bydd y strydoedd canlynol yn orlawn ac yn debygol o fod wedi'u rhwystro, ar gyfer Carnifal Nadolig Llanelli.

1. Rhwng 12:00 a 22:00:
   a) Stryd Cowell, Llanelli, o'r gyffordd â Stryd John

2. Rhwng 17:45 a 20:00:
   a) Stryd Cowell (o'r gyffordd â Stryd Murray), Stryd Stepney (o'r gyffordd â Stryd Cowell), Stryd John, Stryd yr Eglwys, Stryd y Neuadd, Gelli Onn, West End, Waunlanyrafon/Heol yr Hen Gastell, Llanelli (ar hyd y ffyrdd yn eu cyfanrwydd)

3. Rhwng 18:00 a 18:20:
   a) Heol Pen-bre (ar hyd y ffordd yn ei chyfanrwydd) a Heol y Sandy (hyd at y gyffordd â Beach Road), Beach Road, Llanelli (ar hyd y ffordd yn ei chyfanrwydd)

**Y ffordd arall** ar gyfer traffig sydd am deithio tua'r gogledd-orllewin fydd parhau i gyfeiriad y de-ddwyrain ar hyd y B4304 hyd at gylchfan Seaside. Wrth y gylchfan, defnyddio'r drydedd allanfa a pharhau ar hyd y B4304 Stryd Cambria i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at gylchfan Lliedi. Wrth y gylchfan, defnyddio'r ail allanfa a pharhau ar hyd y B4304 i gyfeiriad y de-ddwyrain hyd at y gyffordd â chylchfan Tŷ Copor. Wrth y gylchfan, defnyddio'r ail allanfa a pharhau ar hyd y B4304 hyd at gylchfan Llynnoedd Delta. Wrth y gylchfan, defnyddio'r ail allanfa a pharhau ar hyd y B4304 hyd at gylchfan Machynys. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau ar hyd y B4304 Y Rhodfa i gyfeiriad y gogledd-orllewin am tua 1.3 cilometr, hyd at y gylchfan fach. Wrth y gylchfan, defnyddio'r ail allanfa a pharhau ar hyd y B4304 Heol yr Orsaf i gyfeiriad y gogledd-orllewin hyd at y gyffordd â Stryd Murray. Troi i'r dde wrth y gyffordd a pharhau i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain ar hyd Stryd Murray hyd at y gylchfan. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau ar hyd Stryd Murray hyd at y gylchfan. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau ar hyd Stryd Robinson Uchaf i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at y gylchfan. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau ar hyd Stepney Place i gyfeiriad y gogledd hyd at y gylchfan. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau ar hyd Stepney Place i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain hyd at gylchfan Castell Abertawe. Wrth y gylchfan, defnyddio'r allanfa gyntaf a pharhau ar hyd Water Street i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-orllewin i ddychwelyd i fan sydd i'r dwyrain o'r man lle mae'r ffordd ar gau.

Mae CYNGOR SIR CAERFYRDDIN, yn unol â'i bwerau o dan Adran 21 o Ddeddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847, DRWY HYN YN GORCHYMYN, at ddibenion atal rhwystr yn y ffyrdd a enwyd uchod, y bydd y ffyrdd hynny'n cael eu cau i bob traffig cerbydau gan gynnwys beiciau

Docusign Envelope ID: 47FCD4D6-1644-4DF7-8755-B4B8C878B087

pedal rhwng yr oriau a nodir uchod ddydd Gwener 21 Tachwedd 2025 ar yr amod bod cerbydau'r gwasanaethau brys yn gallu cael mynediad i'r stryd heb oedi mewn argyfwng.

Ni fydd y Gorchymyn hwn yn atal unrhyw berson rhag achosi i unrhyw gerbyd deithio neu aros ar neu yn y darnau ffyrdd y cyfeirir atynt ynddo os yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y gwasanaethau tân neu ambiwlans neu gerbyd yng ngwasanaeth yr heddlu mewn unrhyw achos o'r fath sy'n cael ei ddefnyddio yn unol â phwerau neu ddyletswyddau statudol.

Rhaid i unrhyw berson sy'n cael cyfarwyddyd neu ganiatâd gan Heddwas yn ei lifrai, i deithio, reidio neu yrru cerbyd ymlaen neu achosi neu ganiatáu i gerbyd aros ar neu yn y darnau ffyrdd a ddisgrifir yn y Gorchymyn hwn yn ystod yr oriau dywededig ar y dyddiau dywededig ufuddhau i gyfarwyddiadau'r heddwas ac unrhyw heddwas arall yn ei lifrai, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu neu berson awdurdodedig arall.

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )

**CYNGOR SIR CAERFYRDDIN)**

ar y ddogfen hon )

ar y 10fed o Dachwedd 2025 )

ym mhresenoldeb:-

Steven P Murphy

19447

**Steven P Murphy**

**Pennaeth y Gyfraith, Llywodraethu a Gwasanaethau Sifil**